

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

**Ysgol Gynradd Llechryd
Llechryd
Ceredigion
SA43 2NL**

Rhif yr Ysgol: 6672323

Dyddiad yr Arolygiad: 01/10/07

gan

**Robert Huw Jones
78144**

Dyddiad Cyhoeddi: 3 Rhagfyr 2007

O dan rif contract Estyn: 1102707

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2007: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Llechryd fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Llechryd rhwng 1 Hydref 2007 a 3 Hydref 2007, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Robert Huw Jones. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	7
Safonau	8
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	8
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	10
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	10
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	12
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	15
Arweinyddiaeth a rheolaeth	17
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	17
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	18
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	19
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	20
Dan bump oed	20
Cymraeg iaith cyntaf	23
Gwyddoniaeth	24
Dylunio a thechnoleg	26
Daearyddiaeth	27
Addysg gorfforol	28
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	29
Atodiadau	30
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	30
2 Data a dangosyddion ysgol	30
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	31
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	31
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	32

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Llechryd wedi'i lleoli ym mhentref Llechryd tua thair milltir i'r de o dref Aberteifi. Mae'r ysgol wedi'i chysylltu'n agos ag Ysgol Iau Aberteifi gan mae'r un pennaeth sydd yn gyfrifol am y ddwy. Mae'r pennaeth yn gwario hyd at ddeuddydd yr wythnos yn Ysgol Llechryd ac mae athrawes â gofal yn cymryd yr awenau am y gweddill o'r wythnos, ond mae'r ddwy mewn cysylltiad cyson. Yn bennaf mae'r ysgol yn gwasanaethu'r gymuned leol ond mae tua 17 y cant o ddisgyblion yn teithio iddi o'r tu allan i'w dalgylch. Mae'r ysgol yn disgrifio'i dalgylch fel un sydd heb fod yn freintiedig na difreintiedig. Mae gan tua 12 y cant o ddisgyblion hawl i brydau bwyd ysgol am ddim, ffigwr sy'n gyfartal â chyfartaleddau'r awdurdod addysg lleol (AALI) ac yn is na chyfartaleddau cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi ei dethol yn Gategori A sy'n golygu mae prif gyfrwng yr addysgu yw'r Gymraeg a chyflwynir Saesneg pan fydd y disgyblion yn saith oed. Yng nghyfnod allweddol (CA) 2 addysgir Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Saesneg.
2. Mae 47 o ddisgyblion ar y gofrestr ac fe'u haddysgir mewn tri dosbarth. Mae un dosbarth yn cynnwys plant derbyn a disgyblion CA1, un yn cynnwys disgyblion B3 a B4 a'r llall ddisgyblion B5 a B6. Yn gyfan gwbl, mae 17 disgybl ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae gan un ohonynt ddatganiad angen addysgol. Mae trefniadau derbyn yr ysgol yn dilyn polisi derbyn yr AALI, ac nid yw'n anffafrio disgyblion sydd ag AAA. Mae 62 y cant o ddisgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith, y gweddill o gartrefi Cymraeg eu hiaith a does neb o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
3. Derbyniodd yr ysgol Farc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ar ddau achlysur a llwyddwyd i ennill achrediad arian yr Ysgolion Eco.
4. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2001. Ers hynny, mae'r nifer ar gofrestr yr ysgol wedi codi ychydig ac mae'r ysgol wedi llwyddo'n dda i gadw'i lefelau staffio. Ar hyn o bryd mae tair o athrawon amser llawn yn yr ysgol. Yn ogystal cyflogir dwy gynorthwywraig dosbarth, un yn y dosbarth derbyn a CA1 ac un i gefnogi'r disgybl â datganiad. Yn ystod yr arolygiad addysgwyd un dosbarth gan athrawes o Ysgol Iau Aberteifi a wirfoddolodd wneud hynny ar fyr rybydd yn y dyddiau cyn yr arolygiad pan gymerwyd un athrawes yn sâl.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

5. Ymhlith y meysydd ar gyfer gwelliant a ganfuwyd gan yr ysgol mae:
 - parhau i ddatblygu'r Gymraeg ar draws yr ysgol, yn enwedig sgiliau llafar;
 - cryfhau llais y disgybl;
 - datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol;
 - datblygu sgiliau meddwl y disgyblion;
 - datblygu gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol;

- parhau i ddatblygu cysylltiadau â diwydiant, a
- parhau i werthuso adnoddau yn gyson.

Crynodeb

6. Mae ysgol Gynradd Llechryd yn ysgol gynnes, ofalgar sydd yn hyrwyddo parch at bob unigolyn. Mae ganddi gysylltiadau cryf â'i chymuned a dysgir y disgyblion i barchu eu traddodiadau. Gwelwyd cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 2
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth l ddysgwyr?	Gradd 2
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 2
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

7. Mae'r tîm arolygu yn cytuno â dyfarniadau'r ysgol mewn chwech allan o'r saith cwestiwn allweddol.

8. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi yr arsylwyd arnynt fel a ganlyn

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	71%	29%	0%	0%

9. Mae safonau disgyblion yn y gwersi yr arsylwyd arnynt yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer Cymru-gyfan erbyn 2007, sef bod 98 y cant o safonau o leiaf yn foddhaol (cyfwerth â Gradd 3) a 65 y cant yn dda (cyfwerth â Gradd 2) neu'n well.

10. At ei gilydd, mae ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump yn briodol i'w hanghenion, ac mae plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant. Mae safonau cyflwyniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2

11. Ers yr arolygiad diwethaf mae safonau wedi gwella ym mhob un o'r meysydd uchod.

12. Yn y pynciau a arolygwyd, mae safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Pwnc	CA1	CA 2
Cymraeg	Gradd 3	Gradd 3
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a Thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Addysg Gorfforol	Gradd 2	Gradd 2

13. Ers yr arolygiad diwethaf mae safonau wedi gwella mewn Cymraeg ac addysg gorfforol yn y ddau gyfnod allweddol. Mae safonau da wedi'u cynnal mewn gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg a daearyddiaeth.

14. Ym mhroffion asesu'r CC yn 2007, am fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys i gael eu hasesu ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn fwy na phedwar ond yn is na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a nodir. Roedd 100 y cant o ddisgyblion CA1 wedi cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn CA2, cyrhaeddodd 100 y cant o ddisgyblion o leiaf lefel 4 mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau'r ddau gyfnod allweddol yn uwch na chyfartaleddau'r AALI a Chymru gyfan. Mae canlyniadau y merched yn uwch na'r bechgyn yn y ddau gyfnod allweddol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi cwrdd â'i thargedau.

15. Mae disgyblion a ganfuwyd ag AAA yn cyflawni safonau da yn ôl eu hoed a'u gallu. Maent yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'r targedau a osodir iddynt.

16. Mae'r plant dan-bump yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) cynnar. Yn CA1 a CA2, mae safonau cyflawniad disgyblion ym medr allweddol gwranddo yn gyffredinol dda ac maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau darllen er mwyn cywain gwybodaeth. At ei gilydd mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion mewn siarad ac ysgrifennu. Defnyddiant fedrau rhifedd yn dda, er enghraifft, mewn pynciau fel gwyddoniaeth, daearyddiaeth a dylunio a thechnoleg. Mae medrau TGCh disgyblion yn dda a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r rhain i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae medrau creadigol disgyblion yn dda ac maent yn datrys problemau yn effeithiol.

17. Mae nodweddion da mewn dwyieithrwydd yn gorbwyso diffygion. Mae'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn datblygu medrau dwyieithog da ac maent yn arddangos dealltwriaeth dda o'r ddwy iaith. Fodd bynnag, mae gan nifer fechan o ddisgyblion ddiffyg gwybodaeth ddigonol am y Gymraeg a dangosant ddiffyg hyder wrth ei defnyddio.

18. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda ac maent yn arddangos cwrteisi, sirioldeb a chyfeillgarwch tuag at ei gilydd ac oedolion.
19. Mae safonau presenoldeb y disgyblion ar gyfartaledd ychydig dros 94 y cant. Mae mwyafrif y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn cyrraedd yn brydlon a'r ddechrau'r diwrnod ysgol, ac yn ystod y dydd pan yn mynd i'w gwersi.
20. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda ac mae'r holl ddisgyblion yn gwybod eu bod yn cael eu trin yr un fath. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o amrywiaeth o fewn cymdeithas ac yn dangos parch at wahaniaethau unigo.
21. Mae disgyblion yn arddangos medrau personol a chymdeithasol da, ac maent yn datblygu ymdeimlad o berthyn i'r ysgol a'r gymuned leol. Mae dealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith yn datblygu'n effeithiol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

22. Yn y gwersi a arolygwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Graddau ar gyfer addysgu

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	89%	11%	0%	0%

23. Mae ansawdd yr addysgu'n sylweddol uwch nag ystadegau Prif Arolygydd Ysgolion Cymru yn ei hadroddiad blynyddol 2005-06 pan nodwyd fod ansawdd yr addysgu drwy Gymru gyfan yn Radd 2 neu uwch mewn 79 y cant o wersi.
24. Mae ansawdd y berthynas waith rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn un gynnes ac yn hyrwyddo cymhelliant a dysgu.
25. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda. Maent yn cynllunio yn effeithiol ac yn sicrhau ehangder, dilyniant a pharhad ar gyfer diwallu anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA.
26. Mae nodweddion da gwersi gradd 2 yn cynnwys rhannu nod ac amcan y wers gyda'r disgyblion ar ddechrau gwर्स, cyfarwyddiadau ac esboniadau clir, yn arbennig wrth osod y tasgau, ac mae sesiynau cloi effeithiol sy'n crynhoi yr hyn a ddysgwyd ac yn rhagbaratoi disgyblion ar gyfer y wers nesaf. Gwneir defnydd rheolaidd ac effeithiol o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Yn y gwersi gradd 3, dyfarnwyd bod cyflwyniadau'r gwर्स'n rhy hir a hyn yn arwain at ddisgyblion yn colli diddordeb a bod tueddiad i or-gyfeirio'r disgyblion.
27. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd a phrofiadau cyfartal i'r holl ddisgyblion sy'n sicrhau cyfranogiad llawn pob unigolyn. Mae'r cymhorthyddion dosbarth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r bartneriaeth rhyngddynt â'r athrawon yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygiad y plant dan bump a'r disgyblion sydd ag AAA.

28. Mae trefniadau asesu yn cwrdd â gofynion statudol. Mae ansawdd a gweithdrefnau asesu'n dda ac yn sicrhau cywirdeb a chysondeb ar draws yr ysgol ac mae asesiadau disgyblion ag AAA yn fanwl. Adolygir datblygiad y plant dan bump yn rheolaidd a chedwir cofnodion trylwyr o'u cyrhaeddiad a'u datblygiad addysgol, personol a chymdeithasol.
29. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu disgyblion ac yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn cwrdd â gofynion statudol. Ceir amrediad eang o brofiadau dysgu sydd wedi eu strwythuro'n dda er sicrhau dilyniant a pharhad yn nysgu'r disgyblion. Mae'r profiadau dysgu'n hygyrch i bawb a cheir cynhaliath briodol i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol.
30. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion. Cynigir ystod o brofiadau diddorol i'r plant sydd wedi eu cynllunio'n ofalus ac yn dangos ymwybyddiaeth o oblygiadau'r Cyfnod Sylfaen arfaethedig.
31. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer cynnig profiadau oddi ar safle'r ysgol a gweithgareddau all-gyrsiol yn dda.
32. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda ac wedi ei integreiddio'n effeithiol i fywyd dyddiol yr ysgol. Mae gwasanaethau dyddiol yn gwneud cyfraniad positif i ddatblygiad ysbrydol disgyblion. Mae gan yr ysgol ethos gofalgwr ac mae gwerthoedd cytun yn cael eu hyrwyddo yn feunyddiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n dderbyniol ac annerbyniol. Mae'r cyfleoedd da a gaiff disgyblion i gyd-weithio â'u gilydd ar draws pynciau'r cwricwlwm yn fodd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ymhellach. Mae'r Cwricwlwm Cymreig a'r ddarpariaeth ar gyfer hybu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru yn dda.
33. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion ei gynnwys yn ofalus yn y cwricwlwm. Darperir nifer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn gyfrifol am wahanol agweddau ar fywyd ysgol a dangos blaengaredd megis drwy aelodaeth o'r cyngor ysgol a phwyllgor Eco lle cânt gyfleoedd i feithrin dealltwriaeth o gymryd cyfrifoldeb mewn cymuned.
34. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad a phwysigrwydd gweithredu'n gynaliadwy yn dda ac mae'n cael blaenoriaeth amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol.
35. Mae'r disgyblion yn rhedeg siopau ffrwythau ac ysgytlaeth o fewn yr ysgol, a rhoddir cyfleoedd iddynt drefnu gwahanol weithgareddau er mwyn codi arian at nifer o elusennau. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau hyn yn ddigonol ar gyfer datblygu'n llawn fedrau menter y disgyblion.
36. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddisgyblion yn dda. Llwydda'r ysgol i gynllunio a rheoli'r trefniadau gofal yn effeithiol. Ceir cyfathrebu a chydweithio effeithiol rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r ysgol yn ymateb ar fyrder i gyngor a chyfarwyddyd a dderbynir gan asiantaethau allanol er lles disgyblion.

37. Mae'r drefniadaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac yn bodloni gofynion y Côd Ymarfer. Adnabyddir ac asesir anawsterau disgyblion yn gynnar a rheolaidd. Maent yn derbyn cefnogaeth dda. Caiff pob disgybl fynediad llawn a chyfleoedd i fanteisio ar holl agweddau'r cwricwlwm.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

38. Arweiniwyd yr ysgol yn dda ers yr arolygiad diwethaf ac fe roddwyd iddi gyfeiriad a phwrpas positif. Mae'r pennaeth newydd eisoes yn dechrau adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig arweiniad effeithiol.
39. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad ac mae'r pennaeth yn monitro gwaith aelodau unigol o staff a gosod ar eu cyfer dargedau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion.
40. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol, ac mae'n rhoi pwyslais ar wella medrau allweddol a datblygu sgiliau meddwl. Mae codi safonau yn y pynciau craidd yn flaenoriaethau yn y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) pob blwyddyn.
41. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r pennaeth a'r staff, ac mae'n diwallu'r holl ofynion statudol a chyfreithiol yn llawn.
42. Mae gweithdrefnau hunan-arfarnu'r ysgol wedi'u sefydlu'n dda. Mae'r ysgol yn defnyddio fframwaith yr AALI ar gyfer dadansoddi ei pherfformiad.
43. Mae cydlynwyr pynciau craidd yn monitro safonau yn eu pynciau gan gynnwys cynnal arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy fonitro i nodi meysydd ar gyfer gwelliant er nad ydynt yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol. Ni cheir monitro trylwyr o'r pynciau sylfaen.
44. Cesglir barn yr holl randdeiliaid; staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr am fywyd a gwaith yr ysgol. Dadansoddir yr ymatebion a nodir urhyw ddiffygion y dylid mynd i'r afael â nhw.
45. Mae'r ysgol wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn adnoddau er mwyn cefnogi ei blaenoriaethau, er enghraifft prynu llyfrau sy'n apelio at fechgyn er mwyn cau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched.
46. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol yn yr adroddiad ar arolygiad diwethaf yr ysgol.
47. Mae'r ysgol wedi'i staffio'n dda ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr ac mae ansawdd ac ystod yr adnoddau ar gyfer cynnal y cwricwlwm yn gyffredinol dda.
48. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd o ansawdd da, ac fe'u defnyddir yn effeithiol gan athrawon ar gyfer hyrwyddo dysgu.
49. Mae staff wedi'u lleoli'n briodol, ac mae athrawon sydd â gwybodaeth arbenigol yn addysgu eu pynciau i ddosbarthiadau eraill. Yn ogystal mae athrawon o'r ysgol iau yn rhannu eu harbenigedd gyda'r staff a'r disgyblion o bryd i'w gilydd.

50. Mae cydlynwyr yn sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer eu pynciau ac yn eu hadolygu. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn sicrhau gwelliant mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol :

- A1 godi safonau yn y Gymraeg yn CA1 a CA2;
- A2 wella safonau mewn dwyieithrwydd;
- A3 fonitro'r holl bynciau yn drylwyr, a
- A4 datblygu ymhellach fedrau menter y disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

51. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan -arfarnu.

52. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi yr arsylwyd arnynt fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	71%	29%	0%	0%

53. Mae safonau disgyblion yn y gwersi yr arsylwyd arnynt yn uwch na thargedau LICC ar gyfer Cymru-gyfan erbyn 2007, sef bod 98 y cant o safonau o leiaf yn foddhaol (cyfwerth â Gradd 3) a 65 y cant yn dda (cyfwerth â Gradd 2) neu'n well.

54. At ei gilydd, mae ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump yn briodol i'w hanghenion, ac mae plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant. Mae safonau cyflwyniad plant dan bump oed fel a ganlyn:

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2

55. Ers yr arolygiad diwethaf mae safonau wedi gwella ym mhob un o'r meysydd uchod.

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

56. Yn y pynciau a arolygwyd, mae safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Pwnc	CA1	CA 2
Cymraeg	Gradd 3	Gradd 3
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a Thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Addysg Gorfforol	Gradd 2	Gradd 2

57. Ers yr arolygiad diwethaf mae safonau wedi gwella mewn Cymraeg ac addysg gorfforol yn y ddau gyfnod allweddol. Mae safonau da wedi'u cynnal mewn gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg a daearyddiaeth.

58. Ym mhroffion asesu'r CC yn 2007, am fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys i gael eu hasesu ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn fwy na phedwar ond yn is na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a nodir. Roedd 100 y cant o ddisgyblion CA1 wedi cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn CA2, cyrhaeddodd 100 y cant o ddisgyblion o leiaf lefel 4

mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau'r ddau gyfnod allweddol yn uwch na chyfartaleddau'r Awdurdod Addysg Lleol a Chymru gyfan. Mae canlyniadau y merched yn uwch na'r bechgyn yn y ddau gyfnod allweddol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi cwrdd â'i thargedau.

59. Mae disgyblion yn llwyddo, waeth bynnag eu gallu, a beth bynnag eu cefndir ieithyddol, cymdeithasol neu ethnig. Mae disgyblion a ganfyddir ag AAA yn cyflawni safonau da yn ôl eu hoed a'u gallu. Maent yn gwneud cynnydd da, ac yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer.
60. Mae'r plant dan-bump yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh cynnar. Maent yn gwrando'n astud ac yn mynegi eu hunain yn hyderus. Mae nifer ohonynt yn gwneud marciau adnabyddadwy ar bapur ac mae'r mwyafrif yn dechrau darllen ychydig o eiriau cyfarwydd yn gywir ac yn gwneud defnydd effeithiol o gliwiau llun i ddeall storïau.
61. Yn CA1 a CA2, mae safonau cyflawniad disgyblion ym medr allweddol gwrando yn gyffredinol dda ac mae disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar ei gilydd mewn trafodaeth. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau darllen er mwyn cywain gwybodaeth o amryw ffynonellau. At ei gilydd mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion mewn siarad ac ysgrifennu. Mae ystod geirfa nifer fechan o ddisgyblion yn gyfyng yn y Gymraeg ac mae hyn yn amharu ar eu gallu i fynegi eu hunain yn eglur wrth drafod eu gwaith. Mae disgyblion yn ysgrifennu at ystod o ddibenion ond ni cheir ganddynt adroddiadau estynedig. Defnyddiant fedrau rhifedd yn dda, er enghraifft, mewn pynciau fel gwyddoniaeth, daearyddiaeth a dylunio a thechnoleg. Mae medrau TGCh disgyblion yn dda a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r rhain i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae medrau creadigol disgyblion yn dda ac maent yn datrys problemau yn effeithiol.
62. Mae nodweddion da mewn dwyieithrwydd yn gorbwyso diffygion. Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn datblygu medrau dwyieithog da. Maent yn arddangos dealltwriaeth dda o'r ddwy iaith ac maent yn ymateb yn dda i gwestiynau a chyfarwyddiadau gan ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg fel y bo hynny'n briodol a medrant drawsieithu yn effeithiol. Fodd bynnag, mae gan nifer fechan o ddisgyblion ddiffyg gwybodaeth ddigonol am y Gymraeg a dangosant ddiffyg hyder wrth ei defnyddio.
63. Mae disgyblion yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn dda, yn enwedig cyfrifoldeb dinasyddiaeth, er enghraifft, trwy'r cyngor ysgol a'r pwyllgor Eco. Maent yn gwneud cynnydd da hefyd yn eu defnydd o TGCh, y bydd ei angen arnynt ar gyfer dysgu gydol-oes.
64. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau yn eu gwaith a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae disgyblion yn ymwybodol o'u targedau personol a gytunwyd gyda'u hathrawon ac yn ymdrechu i'w cyrraedd.
65. Mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu potensial a symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae disgyblion yn arddangos cymhelliant da,

ac maent yn dyfalbarhau â'u gwaith. Maent yn gweithio'n dda yn annibynnol ac mewn grwpiau.

66. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda ac yn ystod yr arolygiad roedd cwrteisi, sirioldeb a chyfeillgarwch y disgyblion tuag at ei gilydd ac yn eu perthynas ag oedolion yn nodwedd amlwg o'u hymddygiad oddi mewn a thu allan i'r dosbarth.
67. Mae safonau presenoldeb y disgyblion ar gyfartaledd ychydig dros 94 y cant Mae mwyafrif y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn cyrraedd yn brydlon a'r ddechrau'r diwrnod ysgol, ac yn ystod y dydd pan yn mynd i'w gwersi.
68. Mae disgyblion yn arddangos medrau personol a chymdeithasol da, ac maent yn datblygu ymdeimlad o berthyn i'r ysgol a'r gymuned leol. Mae ganddynt gyfrifoldebau yn eu rolau fel aelodau o'r cyngor-ysgol a'r pwyllgor Eco ac mae disgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae disgyblion yn cynorthwyo eu cyd-ddisgyblion yn dda ac mae system '*Ffrindiau mawr a ffrindiau bach*' yn gweithio'n effeithiol i sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl yn teimlo'n unig nac yn ddiflas ar yr iard. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o dda a drwg ac maent yn ei harddangos yn feunyddiol ym mywyd a gwaith yr ysgol.
69. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda ac mae'r holl ddisgyblion yn gwybod eu bod yn cael eu trin yr un fath. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o amrywiaeth o fewn cymdeithas ac yn dangos parch at wahaniaethau unigol. Gwelir hyn yn y modd caredig ac ystryiol y maent yn cefnogi disgybl anabl.
70. Mae'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol iawn eu dealltwriaeth o'u cymuned, ac yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau lleol. Mae dealltwriaeth y disgyblion o fyd gwaith yn datblygu'n effeithiol ac mae'r disgyblion wedi ymweld â busnesau lleol, er enghraifft canolfan arddio, er mwyn ehangu eu gwybodaeth.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

71. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan -arfarnu.
72. Yn y gwersi a arsylwyd barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	89%	11%	0%	0%

73. Mae ansawdd yr addysgu'n sylweddol uwch nag ystadegau Prif Arolygydd Ysgolion Cymru yn ei hadroddiad blynyddol 2005-06 pan nodwyd fod ansawdd yr addysgu drwy Gymru gyfan yn Radd 2 neu uwch mewn 79 y cant o wersi.

74. Mae ansawdd y berthynas waith rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn un gynnes ac yn hyrwyddo cymhelliant a dysgu. Rhoddir pwyslais ar greu awyrgylch gwaith bwrpasol ynghyd â darparu tasgau diddorol ar gyfer y disgyblion. Mae hyn, ynghyd â'r elfen o barch sy'n bodoli rhwng staff a'r dysgwyr, yn cael effaith positif ar agweddau'r disgyblion at waith.
75. Mae ansawdd yr addysgu ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac yn hyrwyddo'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer plant yr oedran hwn.
76. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda. Maent yn cynllunio yn effeithiol ac yn sicrhau ehangder, dilyniant a pharhad ar gyfer diwallu anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA. Mae'r cynllunio tymor byr o ansawdd da ac yn nodi gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer oed a gallu'r disgyblion, sgiliau sylfaenol, medrau allweddol a'r adnoddau anghenrheidiol. Ceir cyfleodd i nodi gwerthusiad o'r addysgu a'r dysgu er mwyn blaen gynllunio. Manteisir hefyd ar y cyfle i wneud defnydd da o arbenigedd yr athrawon wrth iddynt gyfnewid dosbarthiadau mewn pynciau penodol. Mae'r athrawon yn manteisio ar ddatblygiadau addysgol a chwricwlaidd mwyaf diweddar. Mae mentrau newydd fel gweithredu rhaglenni datblygu sgiliau meddwl wedi'u cyflwyno yn ddiweddar.
77. Defnyddir ystod o strategaethau addysgu er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion a sicrhau eu bod yn ymroi i weithio'n bwrpasol. Mae nodweddion da gwersi gradd 2 yn cynnwys rhannu nod ac amcan y wers gyda'r disgyblion ar ddechrau wers, cyfarwyddiadau ac esboniadau clir, yn arbennig wrth osod y tasgau, ac mae sesiynau cloi effeithiol sy'n crynhoi yr hyn a ddysgwyd ac yn rhagbaratoi disgyblion ar gyfer y wers nesaf. Gwneir defnydd rheolaidd ac effeithiol o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Yn y gwersi gradd 3, dyfarnwyd bod cyflwyniadau'r gwersi'n rhy hir a hyn yn arwain at ddisgyblion yn colli diddordeb a bod tueddiad i or-gyfeirio'r disgyblion.
78. Mae'r cymhorthyddion dosbarth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r bartneriaeth rhyngddynt â'r athrawon yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygiad y plant dan bump a'r disgyblion sydd ag AAA.
79. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd a phrofiadau cyfartal i'r holl ddisgyblion sy'n sicrhau cyfranogiad llawn pob unigolyn. Manteisir ar bob cyfle i feithrin ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliannau ac ieithoedd eraill. Er fod athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau dwy-ieithog disgyblion, ni sicrheir bob amser fod yr holl ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd, yn gyson ac yn gywir.
80. Mae trefniadau asesu yn cwrdd â gofynion statudol. Mae ansawdd a gweithdrefnau asesu'n dda ac yn sicrhau cywirdeb a chysondeb ar draws yr ysgol ac mae asesuadau disgyblion ag AAA yn fanwl. Adolygir datblygiad y plant dan bump yn rheolaidd a chedwir cofnodion trylwyr o'u cyrhaeddiad a'u datblygiad addysgol, personol a chymdeithasol. Mae'r ffeil *Lles a Chyfranogiad* yn adnodd gwerthfawr i'r diben hwn. Defnyddir ystod o brofion safonol ynghyd ag asesuadau tymhorol mewnol yn y pynciau craidd i fesur cynnydd disgyblion. Dadansoddir data profion yn ofalus a gwneir defnydd effeithiol o'r canlyniadau i

fireinio'r addysgu er mwyn hyrwyddo safonau uwch. Asesir cyrhaeddiad disgyblion yn y pynciau sylfaenol yn anffurfiol yn erbyn gofynion y CC er mwyn gwneud asesiadau crynodol ar ddiwedd blwyddyn.

81. Mae'r Proffil Disgybl Unigol yn adnodd da ac yn cynnwys manylion a samplau defnyddiol a chynhwysfawr o asesiadau gwaith disgyblion yn y pynciau craidd o'u cyfnod cynnar hyd at ddiwedd eu cyfnod yn B6. Hyd yn hyn, nid yw'r ysgol yn tracio cynnydd disgyblion yn y medrau allweddol. Cynhyrchwyd portffolios da o esiamplau o waith disgyblion yn y pynciau craidd a'r pynciau sylfaen wedi eu asesu yn yerbyn lefelau'r CC a'u hanodeiddio er mwyn cefnogi barn athrawon a sicrhau cysondeb wrth asesu.
82. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac mae ansawdd yr adborth llafar yn ddefnyddiol er sicrhau fod disgyblion yn deall yn dda beth maent yn ei wneud a'r hyn sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd. Fodd bynnag, prin iawn yw'r sylwadau ysgrifenedig ar waith disgyblion sy'n nodi camau ar gyfer gwelliant.
83. Gosodir targedau unigol i ddisgyblion yn dilyn trafodaethau rhyngddynt â'r athrawon. Mae'r rhain wedi eu harddangos mewn modd deniadol mewn nifer o ddosbarthiadau. Darperir cyfleodd i ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol hefyd i hunan-asesu darnau o'u gwaith eu hunain. Mae'r systemau hyn yn fodd effeithiol i gymell disgyblion i dderbyn cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain .
84. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni ar gynnydd eu plant o ansawdd da ac yn cwrdd â'r gofynion statudol. Maent yn amlinellu medrau a chyflawniadau'r disgyblion ym mhob pwnc .Gwerthfawroga'r rhieni bolisi drws agored yr ysgol a'r cyfleoedd cyson a gânt i drafod cynnydd a chyflawniad eu plant.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

85. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
86. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i anghenion dysgu disgyblion ac yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn cwrdd â gofynion statudol. Ceir amrediad eang o brofiadau dysgu sydd wedi eu strwythuro'n dda er sicrhau dilyniant a pharhad yn nysgu'r disgyblion. Mae'r profiadau dysgu'n hygyrch i bawb a cheir cynhaliaeth briodol i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol.
87. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Cynigir ystod o brofiadau diddorol i'r plant sydd wedi eu cynllunio'n ofalus ac yn dangos ymwybyddiaeth o oblygiadau'r Cyfnod Sylfaen arfaethedig.

88. Derbyniodd yr ysgol Farc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ar ddau achlysur. Darperir cyfleoedd da ar gyfer meithrin sgiliau disgyblion mewn TGCh, rhifedd, medrau personol a chymdeithasol a medrau datrys problemau.
89. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer cynnig profiadau oddi ar safle'r ysgol a gweithgareddau all-gyrsiol yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau preswyl i Langrannog ymweliadau o ddiddordeb addysgol â Sain Ffagan, Y Llyfrgell Genedlaethol a'r eglwys leol. Daw ymwelwyr i'r ysgol fel y ficer lleol a chynrychiolwyr o fudiadau megis Action Aid. Maent i gyd yn cyfoethogi ac ymestyn profiadau disgyblion yn dda ac yn cyfrannu'n sylweddol at godi safonau cyflawniad mewn agweddau o'r cwricwlwm. Mae'r clybiau chwaraeon lleol fel y clwb criced yn ymestyn ac yn hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r pwysigrwydd o fyw'n iach. Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd ac mae'n atgyfnerthu'r cwricwlwm drwy fod yn berthnasol i'r gwaith a wnaed yn y dosbarth.
90. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda ac wedi ei integreiddio'n effeithiol i fywyd dyddiol yr ysgol. Mae gwasanaethau dyddiol yn gwneud cyfraniad positif i ddatblygiad ysbrydol disgyblion. Rhoir cyfleoedd da iddynt fyfyrion dawel ar faterion pwysig, megis cyfrifoldeb yr unigolyn am ofalu am eraill, gofalu am y byd naturiol a'r pwysigrwydd o fod yn ffrind da.
91. Mae gan yr ysgol ethos gofalgar ac mae gwerthoedd cytun yn cael eu hyrwyddo yn feunyddiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n dderbyniol ac annerbyniol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd, at oedolion ac ymwelwyr. Mae'r cyd-berthnasedd drwy'r ysgol yn dda iawn. Mae'r cyfleoedd gwerthfawr a gaiff disgyblion i gyd-weithio ar draws pynciau'r cwricwlwm yn fodd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ymhellach. Darperir profiadau da i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon â disgyblion o ysgolion eraill ac mae'r rhain yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o fanteision cyd-weithio ag eraill mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
92. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru yn dda. Caiff hyn ei hyrwyddo'n effeithiol drwy ymweliadau a dathliadau megis dathliadau Gŵyl Dewi. Hyrwyddir ymwybyddiaeth disgyblion o draddodiadau eraill drwy bynciau megis Addysg Grefyddol a Daearyddiaeth. Mae'r ysgol yn cydnabod yn y CDY fod yr agwedd hon i'w datblygu ymhellach yn y dyfodol agos.
93. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion ei gynnwys yn ofalus yn y cwricwlwm. Hybir hyn drwy arddangos rheolau dosbarth a thrwy weithgareddau amser cylch lle ceir cyfle i drafod materion sensitif mewn awyrgylch gynhaliol. Ceir systemau effeithiol ar gyfer gwobrwyo disgyblion er hybu ymddygiad ac agweddau positif tuag at ddysgu. Darperir nifer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn gyfrifol am wahanol agweddau ar fywyd ysgol a dangos blaengaredd megis drwy aelodaeth o'r cyngor ysgol a phwyllgor Eco lle cânt gyfleoedd i feithrin dealltwriaeth o gymryd cyfrifoldeb mewn cymuned.

94. Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi gan bartneriaeth effeithiol â'r gymuned leol. Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol gyda'r rhieni, y gymuned leol, asiantaithau eraill, ysgolion cynradd ac uwchradd lleol a sefydliadau hyfforddi athrawon. Gwneir defnydd effeithiol o'r cysylltiadau hyn i ehangu'r profiadau dysgu.
95. Mae nifer o rieni yn helpu datblygu adnoddau dysgu o fewn yr ysgol ac mae Pwyllgor Rhieni ac Athrawon gweithgar sydd yn codi swm sylweddol o arian i'r ysgol. Mae cydweithio agos gydag Ysgol Iau Aberteifi ac mae'r ddwy ysgol yn rhannu adnoddau ac arbenigedd athrawon. Mae trefniadau ar gyfer derbyn a throsglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd yn dda. Gwneir hyn drwy gyfres o ymweliadau, rhannu gwybodaeth, a chysylltiad athrawon sy'n sicrhau fod disgyblion yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn hyderus.
96. Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau gyda rhai busnesau lleol, ac fe wnaed defnydd effeithiol o'r rhain i drefnu ymweliadau i'r disgyblion er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'f yd gwaith. Engraifft dda o hyn oedd ymweliad y disgyblion i weld y Papur Bro yn cael ei gynhyrchu.
97. Caiff y Cwricwlwm Cymreig sylw da ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer codi ymwybyddiaeth a balchder disgyblion yn eu traddodiadau lleol yn cael lle amlwg. Caiff diwylliant Cymraeg hefyd sylw da mewn pynciau megis hanes a chelf pan fydd disgyblion yn arsylwi ar waith artistiaid fel Ogwyn Davies. Caiff agweddau o'r Cwricwlwm Cymreig eu hyrwyddo ymhellach drwy aelodaeth o'r Urdd, sy'n darparu nifer o weithgareddau diwylliannol a chymdeithasol ynghyd â chwaraeon. Ceir ymweliadau cyson gan gwmnïau theatr ac ymweliadau i fannau o ddiddordeb arbennig megis Canolfan y Mileniwm. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau medrau dwyieithrwydd pob disgybl yn holl bynciau'r cwricwlwm yn gwbl effeithiol.
98. Mae'r ysgol yn ymateb i anghenion pob disgybl yn dda ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hynny sydd ag AAA yn cael eu trin yn deg ac yn cael mynediad i bob agwedd o fywyd ysgol. Mae'r staff yn ymateb ar fyrder i anghenion disgyblion er sicrhau cymorth a chefnogaeth addas a diwallu anghenion pob unigolyn.
99. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gweithredu'n gynaliadwy yn dda ac mae'n cael blaenoriaeth amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol. Llwyddwyd i ennill achrediad arian yr Ysgol Eco a sefydlwyd trefn dda ar gyfer ailgylchu amrywiaeth o sbwriel ac arbed ynni. Mae hyn yn fodd effeithiol i hybu dealltwriaeth disgyblion o arwyddocâd byw'n gynaliadwy.
100. Mae'r disgyblion yn rhedeg siopau ffrwythau ac ysgytlaeth o fewn yr ysgol, a rhoddir cyfleoedd iddynt drefnu gwahanol weithgareddau er mwyn codi arian i nifer o elusennau. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau hyn yn ddigonol ar gyfer datblygu'n llawn fedrau menter y disgyblion.
101. Mae profiadau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm yn eu galluogi i ennill ystod o fedrau sy'n werthfawr o ran dysgu gydol oes. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu

sgiliau meddwl disgyblion, medrau TGCh, a medrau personol a chymdeithasol. Hybir medrau mynegi barn disgyblion yn dda wrth iddynt weithredu'n ddemocrataidd drwy aelodaeth bwyllgorau megis y pwyllgor Eco a'r cyngor ysgol.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

102. Nid yw barn y tîm arolygu yn cytuno â Gradd 1 yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu. Ni welwyd tystiolaeth o nodweddion rhagorol gan y tim arolygu i gefnogi'r radd hon.
103. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddisgyblion a'r trefniadau ar gyfer sicrhau eu lles yn dda. Llwydda'r ysgol i gynllunio a rheoli'r trefniadau gofal a'r gwasanaethau yn effeithiol. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda, yn ymwybodol o'u hanghenion ac yn darparu cefnogaeth dda ar eu cyfer. Mae'r disgyblion yn dweud eu bod yn hapus yn yr ysgol ac mae perthynas dda iawn rhyngddynt â'r holl staff. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i drafod unrhyw faterion neu bryderon gyda'r oedolion o fewn yr ysgol.
104. Ceir cyfathrebu a chydweithio effeithiol rhwng y rhieni a'r ysgol er sicrhau fod disgyblion yn gwneud cynnydd. Caiff rheini wybodaeth dda yn reolaidd am ddigwyddiadau'r ysgol drwy lythyron neu gylich lythyr. Maent hwythau'n barod i gefnogi drwy godi arian neu wirfoddoli i weithio yn yr ysgol pan fo angen. Mae'r ysgol yn darparu llyfrynnau megis *Llyfr Cyswllt Cartref /Ysgol* a phe cynnau fel *Darllen gyda'ch plentyn* sy'n fodd effeithiol i rieni fod yn rhan weithredol o addysg eu plant. Mae'r cytundeb cartref/ ysgol yn rhesymol a chaiff ei lofnodi gan y mwyafrif o'r rhieni. Mae cysylltiadau ag asiantaethau lles yr un mor effeithiol a sefydlwyd perthynas agos â'r rhain i gefnogi disgyblion ag anawsterau personol neu anghenion arbennig. Mae'r ysgol yn ymateb ar fyrder i gyngor a chyfarwyddyd a dderbynir er lles disgyblion.
105. Mae'r drefniadaeth ar gyfer croesawu plant i'r dosbarth Derbyn yn dda. Cefnogir hyn drwy ymweliadau rheolaidd â'r ysgol cyn dechrau a throsglwyddo gwybodaeth berthnasol i rieni. Mae nifer o'r plant yn mynychu'r cylch Mudiad Ysgolion Meithrin a gynhelir yn yr ysgol ac felly mae cysylltiad agos yn bodoli rhyngddynt a'r ysgol. Mae'r drefniadaeth ar gyfer derbyn hwyr ddyfodiaid i'r ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n gyflym gyda chefnogaeth disgyblion a staff. Mae cysylltiadau agos yn ffynnu rhwng yr ysgol â'r ysgolion uwchradd lleol ac mae'r drefniadaeth pontio â'r ysgolion hynny'n sicrhau fod disgyblion yn symud ymlaen yn hyderus i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.
106. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn cael ei chynllunio'n ofalus a chaiff ddylanwad positif ar les a diogelwch disgyblion. Rhoddir pwyslais ar werthoedd fel parch at eraill a sicrhau chwarae teg i bob unigolyn. Mae disgyblion hyn yn gweithredu system *Ffrindiau Mawr* a *Ffrindiau Bach* yn hynod effeithiol ac mae'r gweithdrefnau hyn yn cefnogi gwerthoedd yr

ysgol sef sicrhau cydraddoldeb a chefnogaeth i bawb. Mae'r cyfleoedd a gaiff disgyblion i leisio barn o fewn cyfundrefn cyngor ysgol a phwyllgor Eco'n gymorth iddynt sylweddoli fod yr ysgol yn gwrando arnynt ac yn parchu eu llais.

107. Caiff addysg rhyw, cyffuriau a phwysigrwydd byw'n iach y sylw dyladwy. Mae'r ysgol yn hybu byw'n iach drwy fod yn rhan o gynllun Ysgol Iach yr AALI ac mae siopau ffrwythau ac ysgythaeth ar gael adeg egwyl i'r disgyblion. Anogir disgyblion yn rheolaidd i yfed dŵr a phwysleisir y pwysigrwydd o ddeiet cytbwys a bwyta'n iach drwy arddangosfeydd deniadol a thrwy agweddau perthnasol o'r cwricwlwm.
108. Mae trefniadau da'n bodoli ar gyfer sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion. Mae un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf ac mae'r ysgol eisoes wedi trefnu fod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant yn y maes hwn yn y dyfodol agos. Mae cysylltiadau'r ysgol â phrosiectau megis *Kerbcraft* yn hynod effeithiol.
109. Mae'r cyfnodau cofrestru yn cael eu gweinyddu'n briodol a chaiff presenoldeb a phrydlondeb eu monitro'n ofalus yn unol â gofynion statudol. Cysylltir â swyddog lles yr AALI pan fo'r angen. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o system gyfrifiadurol i gofrestri a chynhyrchu adroddiadau er mwyn monitro presenoldeb. Mae gweithdrefnau trylwyr ar gyfer dilyn i fyny absenoldebau ac fe atgoffir y rhieni yn rheolaidd am bwysigrwydd presenoldeb cyson.
110. Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau addas ar gyfer amddiffyn plant ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r drefniadaeth.
111. Mae'r drefniadaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac yn bodloni gofynion y Côt Ymarfer. Adnabyddir ac asesir anawsterau disgyblion yn gynnar a rheolaidd.
112. Mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth dda gan yr athrawes AAA, yr athrawon dosbarth a'r cymhorthyddion dosbarth. Cânt fynediad llawn a chyfleoedd i fanteisio ar holl agweddau'r cwricwlwm. Mae'r cynlluniau addysg unigol (CAU) yn rhoi arweiniad da i'r athrawon er cynllunio i gwrdd ag anghenion disgyblion. Mae gan rieni ran weithredol wrth lunio'r CAU a gosod targedau a chânt gyfarfodydd rheolaidd gyda'r athrawon i drafod cynnydd eu plentyn. Caiff cynnydd y disgyblion ei fonitro'n gyson gydag adolygiadau manwl a thrylwyr. Mae hyn yn cyfrannu at effeithiolrwydd y ddarpariaeth.
113. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion y mae eu hymddygiad yn amharu ar eu cynnydd hwy ac eraill yn effeithiol drwy sicrhau cefnogaeth asiantaethau arbenigol pan fo'r angen. Mae gan yr ysgol drefniadaeth glir ar gyfer y broses o integreiddio disgyblion yn ôl i fywyd a gwaith yr ysgol yn dilyn cyfnod gwaharddiad.
114. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda ac yn sicrhau y caiff pob disgybl fynediad llawn i bob agwedd o fywyd dyddiol yr ysgol. Rhoddir ystyriaeth i amrywiaeth cefndiroedd disgyblion a gweithredir yn effeithiol er mwyn sicrhau cefnogaeth a chyfarwyddyd addas i ddisgyblion sydd angen sylw

arbennig. Mae polisiâu a gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y ddau ryw a chaiff bechgyn a merched yr un cyfleoedd yn holl weithgareddau'r ysgol.

115. Hyrwyddir cysylltiadau hiliol yn effeithiol drwy gynllunio bwriadus. Rhoddir sylw dyladwy i amryfaliaeth mewn cymdeithas ac i gredoau eraill yng nghwricwlwm yr ysgol. Amlygir yr agweddau hyn yn arbennig mewn gwersi daearyddiaeth ac addysg grefyddol.
116. Mae gan yr ysgol bolisi a chynllun gweithredu ar gyfer hygyrchedd a cheir camau priodol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

117. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
118. Arweiniwyd yr ysgol yn dda ers yr arolygiad diwethaf ac fe roddwyd iddi gyfeiriad a phwrpas positif. Mae'r pennaeth newydd eisoes yn dechrau adnabod yr ysgol yn dda ac yn rhoi arweiniad effeithiol. Mae hi'n cefnogi ac yn parhau i hyrwyddo cenadwri'r ysgol sy'n mynegi ymrwymiad i greu cymuned weithgar, ofalgar lle dangosir parch at bob unigolyn boed yn blentyn neu oedolyn.
119. Mae'r pennaeth, sydd hefyd yn gyfrifol am Ysgol Iau Aberteifi, yn gwario hyd at deuddydd yr wythnos yn Ysgol Llechryd ac mae athrawes â gofal yn cymryd yr awenau am y gweddill o'r wythnos, ond mae'r ddwy'n mewn cysylltiad cyson er mwyn sicrhau fod yr holl staff yn derbyn arweiniad effeithiol bob amser.
120. Mae dogfennaeth yr ysgol yn fanwl, ac fe'u cedwir yn drylwyr. Adlewyrchir yr ymdeimlad o drefn a sylw at fanylion yng ngweithdrefnau'r ysgol o ddydd i ddydd.
121. Mae'r pennaeth a'r staff yn llwyddiannus wrth greu ethos da yn seiliedig ar werthoedd cadarn sy'n amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn llwyddo creu amgylchedd gofalgwr ac ysgogol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol ac sy'n sicrhau cydraddoldeb i bawb.
122. Mae'r gweithdrefnau rheoli yn effeithiol ac mae aelodau staff y ddwy ysgol yn gweithio'n dda fel tîm. Gwelwyd hyn pan wirfoddolodd aelod o staff yr ysgol iau, ar fyr rybydd, gymryd cyfrifoldeb am ddsbarth dros gyfnod yr arolygiad. Mae gan gydlynwyr-pwnc rolau rheolaeth a ddiffinnir yn eglur. Maent yn monitro eu pynciau yn unol â rhaglen fonitro'r ysgol; caiff y pynciau craidd eu monitro bob blwyddyn a phynciau eraill dros gyfnod o ddwy flynedd.

123. Mae'r holl staff yn ymwneud â dadansoddi data perfformiad ac yn gosod targedau heriol ond realistig ym mlynnyddoedd un, tri a phump. Adolygir rhagfynegiadau diwedd cyfnod allweddol yn gyson ac fe'u newidir yn ôl cynnydd disgyblion.
124. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad ac mae'r pennaeth yn monitro gwaith aelodau unigol o staff a gosod ar eu cyfer dargedau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion.
125. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol, ac mae'n rhoi pwyslais ar wella medrau allweddol a datblygu sgiliau meddwl. Mae codi safonau yn y pynciau craidd yn flaenoriaethau yn y CDY pob blwyddyn. Mae'r ysgol yn effeithiol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy, ac mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o ddinasyddiaeth a chyfrifoldeb trwy waith y cyngor ysgol a'r pwyllgor Eco.
126. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r pennaeth a'r staff, ac mae'n diwallu'r gofynion statudol a chyfreithiol. Mae'r holl bolisiâu statudol ac argymelledig, dogfennau a gweithdrefnau wedi'u mabwysiadu a'u gweithredu.
127. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr gan y pennaeth yn dymhorol sy'n eu hysbysu ynglŷn â holl agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol, ac mae'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr yn trafod materion sy'n ymwneud â rheolaeth yn gyson. Mae hyn y sicrhau fod y corff llywodraethol a'r pennaeth yn cydweithio'n effeithiol er budd yr ysgol.
128. Mae'r corff llywodraethol yn cwrdd yn rheolaidd, ac mae rhai llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn aml er mwyn monitro ei gwaith. Maent yn monitro'n agos gyllideb yr ysgol ac yn cymryd rhan weithgar mewn rheolaeth strategol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
--

129. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
130. Mae gweithdrefnau hunan-arfarnu'r ysgol wedi'u sefydlu'n dda. Mae'r ysgol yn defnyddio fframwaith yr AALI ar gyfer dadansoddi ei pherfformiad. Mae'r staff yn cymryd rhan weithredol mewn arfarnu gwaith yr ysgol. Maent yn cytuno ar gryfderau ac agweddau ar gyfer eu datblygu. Mae'r pennaeth a'r staff yn dadansoddi canlyniadau asesiad y CC ac adolygu perfformiad disgyblion cyn gosod targedau ar gyfer diwedd y ddau gyfnod allweddol.
131. Mae cydlynwyr pynciau craidd yn monitro safonau yn eu pynciau gan gynnwys cynnal arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy fonitro i nodi meysydd ar gyfer gwelliant er nad ydynt yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol. Ni cheir monitro trylwyr o'r pynciau sylfaen.

132. Cesglir barn yr holl randdeiliaid gan gynnwys staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr am fywyd a gwaith yr ysgol. Dadansoddir yr ymatebion a nodir urhyw ddiffygion y dylid mynd i'r afael â nhw. Bydd ymgynghorwyr yr AALI yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i werthuso ei gwaith a chyfrannu i'r broses hunan-arfarnu.
133. Mae'r CDY yn ddogfen gynhwysfawr sy'n nodi blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant yn eglur. Mae'n cynnwys targedau meintiol ar gyfer y pynciau craidd a tharged ar gyfer TGCh ynghyd ag eraill sy'n cyfeirio at agweddau ysgol-gyfan megis AAA. Mae'r cynllun yn cynnwys meini prawf llwyddiant manwl, anghenion hyfforddiant staff a chostau.
134. Mae'r ysgol wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn adnoddau er mwyn cefnogi ei blaenoriaethau, er enghraifft, prynu llyfrau sy'n apelio at fechgyn er mwyn cau'r bwch rhwng perfformiad bechgyn a merched. Gwariwyd swm sylweddol ar yr ardal tu allan ar gyfer y plant dan bump er mwyn cynnig iddynt gwricwlwm cyflawn yn unol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae tystiolaeth gadarn fod y gweithrediadau a gymerwyd wedi arwain at welliannau mesuradwy. Er enghraifft, o ganlyniad i wariant ar gyfrifiaduron a byrddau gwyn rhyngweithiol ym mhob dosbarth, mae safonau wedi codi mewn TGCh.
135. Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol yn ddogfen strwythuredig a chynhwysfawr. Mae'n dangos cryfderau'r ysgol a'r meysydd hynny lle mae angen iddi wella. Mae'r tîm arolygu yn cytuno â dyfarniadau'r ysgol mewn chwech allan o'r saith cwestiwn allweddol.
136. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol yn yr adroddiad ar arolygiad diwethaf yr ysgol. Mae safonau wedi codi yn yr holl ganlyniadau dymunol i'r plant dan bump ac mewn Cymraeg ac addysg gorfforol yn y ddau gyfnod allweddol. Bellach mae trefniadau ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac maent yn derbyn cefniogaeth dda gan yr athrawes AAA, athrawon dosbarth a'r cymorthyddion.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
--

137. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
138. Mae'r ysgol wedi'i staffio'n dda ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae gan staff addysgu a chefnogi gymwysterau a medrau priodol, ac mae eu harbenigedd wedi'i gyfateb yn dda i ofynion y cwricwlwm. Mae staff cefnogi yn gwneud cyfraniad da i ansawdd addysgu ac maent yn gweithio'n effeithiol dan gyfarwyddyd athrawon.
139. Mae ansawdd ac ystod yr adnoddau ar gyfer cynnal y cwricwlwm yn gyffredinol dda. Maent wedi eu trefnu'n daclus ac ar gael yn hawdd i ddisgyblion. Mae staff

yn gwneud defnydd da o'r holl adnoddau gan gynnwys yr amgylchedd agos a'r amgylchedd ehangach.

140. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd o ansawdd da ac fe'u defnyddir yn effeithiol gan athrawon ar gyfer hyrwyddo dysgu. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o'r holl le sydd ar gael yn yr ysgol ac o adnoddau yn y gymuned fel neuadd y pentref. Mae arddangosfeydd o ansawdd da yn mwyhau amgylchedd yr ysgol ac yn adlewyrchu gwaith y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Nodwedd arbennig yw'r parch a roddir i ddiwylliant lleol, er enghraifft, arddangosfa yn y cyntedd sy'n dathlu hanes y cwrwgl ar yr afon Teifi.
141. Mae staff wedi'u lleoli'n briodol, ac mae athrawon sydd â gwybodaeth arbenigol yn addysgu eu pynciau i ddosbarthiadau eraill. Yn ogystal mae athrawon o'r ysgol iau yn rhannu eu harbenigedd gyda'r staff a'r disgyblion o bryd i'w gilydd. Mae gan yr holl staff fynediad i ystod dda o weithgareddau datblygiad proffesiynol, ac mae blaenoriaethau hyfforddiant wedi'u cysylltu i anghenion yr ysgol.
142. Mae'r staff arlwyyo, goruchwylwyr canol-dydd a'r ofalwraig yn ymgymryd â'u dyletswyddau beunyddiol yn effeithiol ac effeithlon. Mae safon dda o lendid oddi mewn i'r ysgol, ac mae'r ardaloedd y tu allan yn daclus ac yn rhydd o sbwriel.
143. Mae adnoddau wedi'u cyfateb yn dda i flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygu, er enghraifft y buddsoddiad a wnaed er mwyn hyrwyddo sgiliau meddwl.
144. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) athrawon unol â gofynion statudol.
145. Mae cydlynwyr yn sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer eu pynciau ac yn eu hadolygu. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Plant o dan 5 oed

146. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu:- Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

147. Mae plant yn gwrando'n dda ac yn gwneud cynnydd da wrth siarad Cymraeg; maent yn mwynhau siarad am ddathliadau fel pen blwydd. Maent yn ymarfer drwy siarad ar y ffôn wrth chwarae rôl. Mae plant yn hoff o wrando ar stori a dilynant stori yn yr orsaf wrando gyda mwynhad. Maent yn trafod llyfrau yn hyderus ac yn ymddwyn fel darllenwyr wrth ddarllen storïau i'w gilydd. Dywedant

yn bendant pa un yw eu hoff lyfr. Defnyddiant lyfrau cyfair yn effeithiol, er enghraifft, i chwilio am anifeiliad gyda dwy goes. Maent yn deall yn dda gyfarwyddiadau oedolion ac yn eu dilyn yn gywir. Maent yn hoffi gwneud marciau mewn amryw gyfryngau ac yn ffurfio llythrennau yn gywir mewn paent ac eli eillio. Mae'r hynaf yn defnyddio geiriau ar gardiau fflach i greu brawddeg. Dewisant eiriau addas i ddisgrifio dyn Celtaidd.

Diffygion

148. Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad personol a chymdeithasol:- Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

149. Mae gan y plant berthnasau da â'u gilydd a chyda eu hathrawon. Maent yn cydweithio a chyd-chwarae'n hapus a rhannu adnoddau'n hwylus. Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn ymateb yn dda i reolau'r ystafell ddosbarth. Dangosant sensitfrwydd at ei gilydd a chonsyrn dros bethau byw. Mae plant yn hoffi plannu hadau, eu dyfrhau a'u gweld yn tyfu yn blanhigion ac ar ôl iddynt dyfu, gofalent amdanynt. Maent yn rhannu syniadau yn aeddfed yn ystod y cyfnodau pan ddônt at ei gilydd i drafod materion amrywiol gan aros eu tro i siarad. Maent yn gwybod bod angen golchi dwylo cyn bwyd neu ar ôl bod yn y tŷ bach a gwnânt hynny'n annibynnol. Mae pob plentyn yn medru dadwisgo ar gyfer ymarfer corff a'r mwyafrif yn gwisgo eu hunain ar ddiwedd y wers.

Diffygion

150. Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad mathemategol:- Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

151. Mae plant yn datblygu ymwybyddiaeth dda o rif dau a deallant fod hyn yn ffordd o gofnodi dau wrthrych. Maent yn medru rhoi gwrthrychau yn gywir mewn parau. Medrant rifo hyd at 10 o smotiau yn gywir. Maent yn deall fod rhai pethau'n hirach neu byrrach na'i gilydd a gosodant wrthrychau mewn trefn gywir yn ôl eu priodweddau. Deallant fod gwrthrychau yn amrywio o ran maint a siâp ac enwant rai o'r siapiau cyffredin. Maent yn adnabod yn gywir siapiau cylch o amgylch y dosbarth ac yn yr iard. Mae plant yn adnabod patrwm ac yn medru ei efelychu. Defnyddiant eirfa fathemategol yn gywir, er enghraifft, *ymlaen/nôl, i'r chwith/ i'r dde, bach/mawr*.

Diffygion

152. Nid oes diffygion pwysig.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd:- Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

153. Mae plant yn dechrau deall treigl amser ac maent yn gwybod eu bod yn dod i'r ysgol yn y bore yna mynd i'w gwersi cyn cael cinio. Maent yn medru disgrifio eu cartrefi a rhestri'n gywir y pethau sy'n defnyddio trydan. Mae ganddynt wybodaeth dda am waith yn yr ardal; maent yn adnabod plismon a phostman wrth eu gwisgoedd ac yn egluro beth yw eu swyddi. Eglurant hefyd beth yw gwaith y ffermwr. Mae plant yn dechrau adnabod eu hamgylchedd ac yn gwneud mapiau syml i ddangos y ffordd o gwmpas y pentref ac o'r ysgol i Fferm Folly. Maent yn gwybod yn dda bod nifer o ddulliau o deithio a bod angen mynd ar fws i Fferm Folly gan ei bod yn bell i ffwrdd. Maent yn gwybod bod angen pacio cês i fynd ar wyliau. Mae plant yn dysgu datrys problemau yn dda drwy rollo pêl o glai ar lethr; darganfyddant drostynt eu hunain beth yw'r canlyniadau o wneud y llethr yn fwy serth. Maent yn defnyddio cyfrifiaduron a chamerau yn hyderus a chywir.

Diffygion

154. Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad corfforol:- Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

155. Mae gan y plant symudiadau breision da; maent yn dringo'n ddiogel ac yn arddangos cydbwysedd da wrth neidio a glanio ac maent yn symud yn hyderus oddi mewn i ofod a roddir gan gerdded a rhedeg gyda rheolaeth dda. Maent yn taflu a rholio pêl ag aneliad cywir. Mae gan y plant sgiliau echddygol manwl da ac maent yn trafod pensiliau, creonau, sisyrnau ac offer mân yn fedrus. Er enghraifft, maent yn torri papur a defnydd a'u gludo ar bapur i greu gludwaith deniadol. Maent yn datblygu eu medrau cydlynu llaw a llygad yn dda pan fônt yn chwarae ag amrywiaeth o jig-sos.

Diffygion

156. Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad creadigol:- Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

157. Mae plant yn defnyddio deunyddiau naturiol yn ddychmygus, er enghraifft i greu malwoden ar gae'r ysgol gyda darnau o bren. Maent hefyd yn gwneud pwysau papur deniadol gyda cherrig. Mae plant yn creu pypedau a doliau deniadol. Maent yn tynnu lluniau effeithiol o'r anifeiliaid aeth i mewn i arch Noa a pheintio gyda'u bysedd. Maent yn argraffu gydag amrywiaeth o siapiau a pheintio gyda dychymyg a brwdfrydydd ar blastig yn yr ardal tu allan. Buont yn cydweithio ag arlunydd lleol i beintio llun o'r pentref ar wal yr ysgol yn yr ardal tu allan i'w

dosbarth. Mae plant yn clapio yn gywir i rythm ac yn dilyn sgôr graffig wrth ganu offerynnau di-draw. Defnyddiant offerynnau yn effeithiol hefyd i gyfeilio pan fyddant yn canu ystod o ganeuon Cymreig.

Diffygion

158. Nid oes diffygion pwysig.

Cymraeg iaith gyntaf

Cyfnod Allweddol 1 : Gradd 3 : Nodweddion da yn gorbwysio diffygion.

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 3 : Nodweddion da yn gorbwysio diffygion.

Nodweddion da.

159. Mae disgyblion CA1 yn gwrando'n dda ar gyflwyniadau a storïau ac mae'r mwyafrif yn awyddus i ymateb a chymryd rhan mewn trafodaethau. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg a gwelir datblygiad a chynnydd priodol yn eu hyder a'u gallu i siarad mewn gwahanol sefyllfaoedd a'u parodrwydd i sgwrsio. Maent yn barod i holi a thrafod teimladau megis wrth uniaethu'n frwdfrydig â'r cymeriad Waldo o lyfr "*Waldo'n ennill y dydd*".
160. Yn CA1, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu meistrolaeth o'r broses ddarllen. Mae unigolion yn darllen yn ddeallus gyda mynegiant ac adnabod geiriau sy'n odli. Wrth ddarllen mae eraill yn adnabod nifer o eiriau cyfarwydd a defnyddiant strategaethau addas wrth ddadelfennu geiriau syml anghyfarwydd.
161. Mae medrau ysgrifennu disgyblion CA1 yn datblygu'n foddhaol. Maent yn copïo'n ofalus ac yn defnyddio geirfa barod a fframiau ysgrifennu i gynhyrchu darnau amrywiol ffeithiol a chreadigol yn gynyddol annibynnol. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o atalnodi sylfaenol ac o ffurf a chynllun stori a dangosant hyn wrth ysgrifennu sribed stori "*Guto a Gwyn ar y Fferm*". Yn dilyn ymweliad â Fferm Folly, ysgrifennodd disgyblion am eu hoff anifail gan ddangos dealltwriaeth o ddefnydd cywir a dychmygus o ansoddeiriau.
162. Cyflawna disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol ystod dda o weithgareddau darllen gan gynnwys mynd â'u llyfrau darllen gartref neu fenthyl llyfrau o lyfrgell yr ysgol.
163. Mae disgyblion CA2 yn gwrando'n gwrtais a da ar ei gilydd ac mewn cyflwyniadau dosbarth. Gydag arweiniad ac anogaeth mae mynegiant llafar mwyafrif disgyblion yn gwella'n briodol wrth iddynt ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau. Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn effeithiol ar lafar gan ddefnyddio geirfa addas a chyfrannu'n bwrpasol at drafodaethau dosbarth.
164. Yn CA2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen testunau sy'n cyfateb i'w gallu. Mae rhai unigolion yn ddarllenwyr ystyrlon ac yn ateb cwestiynau am

nodweddion a chynnwys llyfrau ynghyd â mynegi barn am y llyfrau a ddarllenant. Llwydda'r disgyblion canolig ac is eu gallu ddehongli testunau symlach o ran cynnwys a mynegiant gan ateb cwestiynau am gynnwys a chymeriadau'r testun. Gwna'r disgyblion ddefnydd da o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o gyfeirlyfrau, y rhyngrwyd a ffynonellau eraill.

165. Mae disgyblion CA2 yn ysgrifennu mewn amrediad o arddulliau gan gynnwys dyddiaduron, ysgrifennu rysait, adolygiadau llyfr, carden bost a phortreadau gan ddefnyddio modelau a chanllawiau pendant. Sylweddolant fod ffurf iaith yn dibynnu ar ei phwrpas a'i chynulleidfa. Llwyddant i ysgrifennu llythyron o brotest fel at gwmni gwyliau a gallant gyflwyno gwybodaeth yn gryno wrth gynllunio pamffledi am Fferm Folly. Arddangosant y gallu i adnabod hanfodion ysgrifennu i ddwyn perswâd yn foddhaol wrth greu poster am anifeiliaid yng ngyd destun llyfr y dosbarth "*Gwil Bril a'r Gath Ddu*". Mae rhai unigolion yn ysgrifennu'n ddychmygus gan gynnal diddordeb y darlennydd gan gynnwys ystod o gymariaethau ac ansoddeiriau diddorol fel wrth ddisgrifio ffrind neu chwaraewr rygbi.

166. At ei gilydd, dengys disgyblion feistrolaeth sylfaenol dros ffurfiau berfol, cystrawen a threigliadau.

Diffygion

167. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae nifer fechan o'r disgyblion yn ddi-hyder wrth sgwrsio yn y Gymraeg; mae eu cyfraniadau llafar yn fyr a phrin y byddant yn cynnig sylwadau di-gymell.

168. Tanddatblygedig yw medrau ysgrifennu gwreiddiol a chreadigol disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol ac ni cheir ganddynt ysgrifennu estynedig.

Gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 1 : Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

Cyfnod Allweddol 2 : Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

Nodweddion da

169. Yn CA1, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth dda o brosesau bywyd a phethau byw. Maent yn cymharu'n effeithiol y gwahaniaeth rhwng plant bach ac oedolion.

170. Mae ganddynt wybodaeth dda am rannau'r corff ac maent yn rhestru'n gywir sut mae eu cyrff yn gweithio a sut y gallant symud, er enghraifft, rhedeg a neidio.

171. Maent yn deall yn dda fod ganddynt bum synnwyr a disgrifiant sut y medrant flasu'r gwahaniaeth rhwng pethau melys a sur.

172. Mae disgyblion yn rhestru pethau byw ac anfyw ac yn dosbarthu anifeiliaid yn ôl nifer eu coesau. Maent yn cofnodi'n gywir bywyd y wenyen.

173. Maent yn deall strwythur blodyn yn dda, yn tynnu lluniau clir ac yn enwi ei rannau.
174. Maent yn datblygu sgiliau ymchwiliol da drwy gynnal ymchwiliadau, er enghraifft, maent yn gosod twba gwag ar wyneb dŵr a rhagfynegi faint o farblis y gallant lwytho ynddo cyn iddo suddo.
175. Ar ddechrau CA2, mae disgyblion yn deall yn dda beth yw manteision ac anfanteision trydan. Gallant enwi ffynonellau trydan a chreu cylched drydanol yn cynnwys swits.
176. Tua diwedd y cyfnod allweddol ymestynant eu gwybodaeth o brosesau ffisegol drwy arbrofi gyda chydrannau trydanol. Creant gylchedau cymhleth yn cynnwys sawl batri, switsys a dau fwlb, yn gywir. Gwnânt ddiagram manwl gan ddefnyddio symbolau yn gywir.
177. Mae disgyblion ifancaf CA2 yn datblygu gwybodaeth dda am ddefnyddiau a'u priodweddau. Maent yn gwybod bod defnyddiau yn medru bod yn soled, hylif neu nwy a bod rhai defnyddiau'n naturiol ac eraill o waith dyn. Dosbarthant ddefnyddiau yn gywir yn ôl eu priodweddau.
178. Gwyddant yn dda fod newidiadau yn cymryd lle wrth gynhesu defnyddiau a bod rhai newidiadau'n gildroadwy ac eraill yn anghildroadwy.
179. Mae disgyblion hŷn yn ymestyn eu gwybodaeth am ddefnyddiau drwy ymchilio i rymoedd. Deallant yn dda fod grymoedd yn gallu newid siâp gwrthrych a gwyddant am rym disgyrchiant a'i effaith ar bob peth ar wyneb y ddaear.
180. Defnyddiant offer i fesur grym ac maent yn lluniadu diagramau cywir i ddangos cyfeiriad grymoedd cyferbyniol.
181. Ar ddechrau CA2 mae disgyblion yn ehangu eu gwybodaeth am brosesau bywyd a phethau byw drwy astudio planhigion a deall yr hyn sydd angen arnynt i dyfu. Dosbarthant bethau byw yn gywir yn ôl eu math, er enghraifft, adar, pysgod a mamaliaid.
182. Mae disgyblion hŷn yn deall yn dda y pwysigrwydd o edrych ar ôl y corff drwy fwyta'n iach ac ymarfer yn gyson.
183. Mae disgyblion tua diwedd y cyfnod allweddol yn deall yn dda fod blodau yn cenhedlu a bod hyn yn digwydd drwy beilliad neu wasgariad hadau, gan anifeiliaid fel yr eirinen neu gan y gwynt fel y sycamorwydden.

Diffygion

184. Nid oes diffygion pwysig.

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod Allweddol 1 : Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig.
Cyfnod Allweddol 2 : Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da.

185. Mae gan ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol ymwybyddiaeth dda o briodweddau deunyddiau, megis cryfder a hyblygrwydd ynghyd â phwysigrwydd dethol y deunydd a'r cyfrwng mwyaf addas ar gyfer cyflawni tasg. Mae ganddynt ddealltwriaeth o ofynion tasg a byddant yn gwneud nifer o ddyluniadau bras cyn dewis yr un sydd fwyaf addas i'w gwaith.
186. Mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd glendid personol wrth ymwneud â bwyd. Yn CA1, gwna disgyblion ddewisiadau da o amrywiaeth o wrthrychau wrth addurno teisen neu fisgien. Maent yn datblygu syniadau'n effeithiol drwy drafodaethau manwl gan wneud dyluniadau syml a chofnodi'r deunyddiau anghenrheidiol. Cadwnt olwg manwl ar orffeniad eu cynnyrch gan addasu a newid y dyluniad gwreiddiol fel bo angen gan ddangos technegau gorffen addas. Maent yn gwerthuso'u cynnyrch gan fynegi'r hyn a hoffant am eu gwaith a sut y gellid ei wella.
187. Gwnânt ddewisiadau da o amrywiaeth o ddeunyddiau i wneud pwysau papur deniadol gan ddangos y gallu i ddefnyddio ystod o gyfarpar ac offer gan ystyried yn ofalus y dewisiadau ac addasrwydd gwahanol ddeunyddiau yn eu dyluniadau gwreiddiol. Wrth enwi prif gryfderau eu gwaith gorffenedig mae disgyblion yn cyfiawnhau eu penderfyniadau a nodi yn hyderus sut y gellir gwella ansawdd y dyluniad.
188. Wrth greu goleudy dengys disgyblion CA2 ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n effeithio ar gryfder strwythurau ac adeiladau. Gwnânt ddefnydd da o gydrannau trydanol i greu effeithiau arbennig yn eu cynhyrchion.
189. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'n dda bwysigrwydd ymchwil fel dechreuad y broses ddylunio. Defnyddiant amrywiaeth o ffynonellau i'w cynorthwyo i ddeall yn well y briff a roddwyd iddynt. Er enghraifft, gwnaed ymchwiliadau i gefndir, defnyddioldeb a phwrpas bwgan brain cyn cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd gwahanol fathau o fwganod. Nodir yn y dyluniad ddeunyddiau a lliwiau a'u haddasrwydd ar gyfer y dasg.
190. Mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd o weithio'n fanwl a chywir wrth fesur a thorri gwahanol ddeunyddiau ac archwilio gwahanol dechnegau uno ac asio ar gyfer cynllunio a gwneud amrywiaeth o hetiau neu ffrâm llun. Labelir gwelliannau manwl i'r brasluniau ar gyfer y dyluniad terfynol.
191. Defnyddiant fecanweithiau syml yn eu cynhyrchion a'u dyluniadau o deganau lle chwarae. Defnyddiant feddalwedd TGCh er mwyn rheoli symudiadau gwrthrychau megis wrth greu a rheoli rhaglen goleuadau traffig.

192. Mae safon y cynhyrchion gorffenedig yn dda ac mae disgyblion yn gwerthuso eu gwaith yn drylwyr gan ddynodi diffygion a chynnig awgrymiadau ystyrlon ar gyfer gwelliannau posib.

Diffygion.

193. Nid oes diffygion pwysig.

Daearyddiaeth

Cyfnod Allweddol 1 : Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

Cyfnod Allweddol 2 : Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

Nodweddion da

194. Mae gan ddisgyblion CA1 wybodaeth a dealltwriaeth dda o gynlluniau syml. Medrant arsylwi ar ffotograffau, awyrluniau a mapiau syml ac maent yn adnabod nodweddion eu hardal leol yn dda. Drwy wneud cynllun syml o'u dosbarth ac o'r ysgol ar gyfer ymwelwyr, dengys disgyblion B2 y gallu i drafod gwahanol nodweddion allanol yr adeilad gan ddefnyddio termau a geirfa gywir yn hyderus.

195. Wedi darllen '*Dyddiadur Kobo*' daw disgyblion CA1 yn ymwybodol o lefydd y tu allan i'w cynefin drwy nodi beth fyddai angen arnynt i fynd ar ymweliad â Botswana. Cânt ddealltwriaeth gynyddol o beth sy'n wahanol yn y wlad honno o'i chymharu â Chymru megis arian, baner, anifeiliaid a thywydd.

196. Yn CA2, mae disgyblion yn cymharu yn dda, yn ogystal ac adnabod gwahaniaethau rhwng nodweddion ffisegol a dynol gwahanol gymdogaethau megis yr India, Lesotho a Chymru. Dengys disgyblion hŷn wybodaeth dda o leoliad a chymeriad ardaloedd a threfi megis Chembakolli yn yr India. Cynigiant resymau am nodweddion yng Nghymru a'r India sy'n debyg neu wahanol i'w gilydd. Mae ymwelwyr â'r ysgol megis aelodau Action Aid yn cyfrannu'n sylweddol at ddealltwriaeth disgyblion o amodau byw a gwaith yng ngwledydd megis yr India. Maent hefyd yn cyfrannu tuag at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion byd-eang.

197. Defnyddia disgyblion amrywiaeth o fapiau, atlas, lluniau neu ddata'n dda a chyson. Ar draws y cyfnod gwnânt ymchwiliadau a defnyddiant ystod o ffynonellau i gywain gwybodaeth. Defnyddiant ddata'n hyderus, er enghraifft, wrth gymharu cyfartaledd tywydd a glawiad misol ym Moteswana a Chaerdydd.

198. Mae disgyblion yn enwi ac adnabod nifer o wledydd a dinasoedd ar fap o'r byd a lleoli cyfandiroedd yn dda. Maent yn enwi ac adnabod prif nodweddion ffisegol Cymru a'r Deyrnas Unedig gan ddefnyddio symbolau ac allwedd yn gywir. Nodant leoliadau gan ddefnyddio cyfesurynnau a chyfeirnodau pedwar ffigur ac amcan gyfrif a chyfrifo pellteroedd yn dda megis o Gaerdydd i Abertawe.

199. Mae gan ddisgyblion CA2 ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o egwyddorion datblygiad cynaliadwy gan ddangos pwysigrwydd ail-gylchu fel modd i wella'r

amgylchfyd. Trwy gyfrwng graffiau ac arolwg gwastraff yn eu cartrefi, astudiwyd beth sy'n bosibl ei ail-gylchu a maint y sbwriel sy'n cael ei wastraffu'n lleol ac yn genedlaethol ynghyd ag effeithiau llygredd ar fywyd. Mae disgyblion yn chwarae rhan weithredol ac effeithiol mewn gweithgareddau ail-gylchu yn yr ysgol sy'n hyrwyddo dealltwriaeth uniongyrchol o gyfrifoldeb unigolion am yr amgylchfyd.

Diffygion

200. Nid oes diffygion pwysig.

Addysg gorfforol

Cyfnod Allweddol 1 : Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

Cyfnod Allweddol 2 : Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig.

Nodweddion da

201. Yn CA1, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o wagle a defnyddiant holl lawr y neuadd yn effeithiol.

202. Maent yn symud â rheolaeth dda mewn amryw ffyrdd ac yn ymwybodol bob amser o'r hyn sydd o'u hamgylch.

203. Rheolant eu cyrff yn dda wrth neidio a glanio'n ysgafn-droed. Maent yn dangos siapiau da wrth neidio ac yn eu henwi'n gywir.

204. Yn CA2, mae disgyblion yn rheoli eu symudiadau yn dda wrth symud o amgylch y neuadd yn ystwyth.

205. Dangosant amrywiaeth o siapiau gymnasteg ar y llawr gyda rheolaeth a chydbwysedd da a medrant gynnal y siapiau am gyfnod priodol o amser.

206. Maent yn cynllunio cyfresi o symudiadau gymnasteg ac yn eu perfformio i safon dda, yn unigol ac mewn parau.

207. Mae disgyblion yn gwerthuso gwaith eu hunain ac eraill yn dda gan nodi nodweddion da ac awgrymu gwelliannau.

208. Mae cofnodion yr ysgol yn dangos fod disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn nofio wrth symud drwy'r ysgol.

Diffygion

209. Nid oes diffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

210. Credwn fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r gwaith caled sydd wedi digwydd ers yr arolygiad diwethaf ac yn cadarnhau'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn codi'r safonau ymhellach fyth yn enwedig yn y Gymraeg a dwyieithrwydd.
211. Rydym yn ymfalchio yn yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf ac yn falch iawn fod safonau'r disgyblion yn y gwersi a arsylwyd arnynt yn uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru-gyfan erbyn 2007 a bod ansawdd yr addysgu'n sylweddol uwch nag ystadegau Prif Arolygydd Ysgolion Cymru yn ei hadroddiad blynyddol 2005-2006.
212. Ymhyfrydwn hefyd yn y ffaith fod yr arolygiad yn cydnabod y berthynas agos sydd rhwng y plant, holl aelodau'r staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau'r profiadau gorau posibl i bob un disgybl.
213. Carwn ddiolch i'r tîm arolygu am eu dull proffesiynol ac am y ddeialog adeiladol a gafwyd rhwng y staff, y llywodraethwyr a'r arolygwyr.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Llechryd
Math o ysgol	Meithrin a Chynradd
Ystod oedran y disgyblion	4 – 11 oed
Cyfeiriad yr ysgol	Llechryd, Aberteifi Ceredigion
Cod post	SA43 2NL
Rhif ffôn	01239 682474

Pennaeth	Mrs Helen Griffiths
Dyddiad penodi	1 Medi 2007
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mr D. Vernon Evans
Arolygydd cofrestredig	Mr Robert Jones
Dyddiadau'r arolygiad	1 – 3 Hydref 2007

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion		7	8	7	5	5	8	7	47

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	3	0	3

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	15.6: 1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	15.6
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Hydref 2006		90.2	90.0
Gwanwyn 2007		88.2	95.0
Haf 2007		89.2	96.3

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	12%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	1 dros dro

Atodiad 3

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007	Nifer y disgyblion yn B2	5	
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am aseiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir			
Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	100%	Yng Nghymru	81%

Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2007	Nifer y disgyblion yn B6	6	
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am aseiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir			
Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	100%	Yng Nghymru	74%

Atodiad 4

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys tri arolygydd a fu'n bresennol am gyfanswm o chwe diwrnod arolygydd.

Yn ystod yr arolygiad:

- cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gyda'r pennaeth, athrawon, rhieni a'r corff llywodraethol i drafod bywyd a gwaith yr ysgol;
- Cwblhawyd 19 o holiaduron gan rieni, ac fe'u dadansoddwyd yn drylwyr;
- archwiliwyd polisïau a dogfennau ysgol;
- cynhaliwyd trafodaethau gyda'r pennaeth a chydlynwyr cwricwlaidd;
- Arsylwyd ar 18 o sesiynau neu rannau o sesiynau addysgu;
- gwrandawyd ar ddisgyblion yn darllen, a chynhaliwyd trafodaethau gyda nhw am eu gwaith fel rhan o archwiliad safonau ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- astudiwyd esiamplau o waith disgyblion ym mhob dosbarth;
- archwiliwyd cofrestrï presenoldeb, cofnodion disgyblion a ffeiliau cynllunio athrawon;
- bu arolygwyr yn bresennol ym mhob gweithred ysgol-gyfan o addoli ar y cyd, a
- chynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

Atodiad D

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Robert H. Jones Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun Crynodeb ac Argymhellion Cwestiynau Allweddol 1, 5, 6 a 7 Plant dan bump Gwyddoniaeth Addysg gorfforol
Mrs Eleri Honour Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 2, 3 a 4 Cymraeg iaith gyntaf Daearyddiaeth Dylunio a Thechnoleg
Mr Gwilym Davies Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau i Gwestiynau Allweddol 1, 3 a 4
Mrs Helen Griffiths	Enwebai

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad a'u cwrteisi trwy gydol yr arolygiad.

Contractwr

E.L.L.I.S (Cymru) Ltd
Willastones
13 Heol Pentre'r Felin
Llantwit Major
CF61 2XS